



Mae gan bob un o'r nodiadau canlynol yr un rhif â'r blwch cyfatebol ar y ffurflen gais.

Defnyddiwch inc du a phriflythrennau.

1. Nodwch eich enw llawn

Os ydych yn:	Nodwch
Unig berchennog	Eich enw chi
Partneriaeth, partneriaeth gyfyngedig neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig	Enw'r ffïrm – os nad oes enw i'r ffïrm, nodwch enwau'r partneriaid
Corff corfforaethol	Enw'r cwmni
Corff anghorfforedig	Enw'ch clwb, cymdeithas ac ati.

2. Rhowch eich enw masnachu

Ysgrifennwch eich enw masnachu os yw'n wahanol i'r enw a roddwyd ym mlwch 1. Fel arall gadewch y blwch yn wag.

3. Rhowch gyfeiriad eich prif leoliad busnes

Eich prif leoliad busnes yw'r man lle'r ydych yn derbyn ac yn delio â'ch archebion, ac yn cynnal eich busnes o ddydd i ddydd.

Sylwer: Rhaid i chi beidio â defnyddio Blwch Swyddfa'r Post, cyfeiriad llety na chyfeiriad 'drwy law' gan na fyddwn yn derbyn y rhain. Os ydych yn berson sy'n agored i dret y DU, ond sydd heb ei sefydlu yma, dylech nodi cyfeiriad eich asiant neu'ch cynrychiolydd treth oni bai eich bod yn cofrestru gyda'n swyddfa yn Aberdeen.

Cofiwch roi'r cod post a'r rhif ffôn y gallwn eu defnyddio i gysylltu â chi. Rhowch eich rhif ffacs hefyd, os oes gennych un.

4. Disgrifiwch eich prif weithgaredd busnes

Rhowch ddisgrifiad llawn o'ch busnes neu, os nad yw'ch gweithgareddau'n ymwneud â busnes, rhowch fanylion eich amgylchiadau. Er enghraifft, y math o nwyddau a gwasanaethau rydych yn eu darparu a ph'un a yw'ch cyflenwadau at ddibenion manwerthu neu gyfanwerthu. Hefyd, disgrifiwch y math o nwyddau rydych yn eu caffael neu wedi'u caffael o aelod-wledydd yr UE i mewn i Ogledd Iwerddon. Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen ac atodwch hi i'ch ffurflen gais.

Os oes gan eich busnes fwy nag un gweithgaredd busnes, nodwch unrhyw weithgareddau atodol sylweddol.

5. Pwy sy'n berchen ar y busnes?

Ticiwch un blwch yn unig. Dylai hyn gyfateb i statws y person a enwyd ym mlwch 1. Os yw'r busnes yn gorff corfforaethol, cofiwch roi'r rhif a'r dyddiad a ddangosir ar eich Tystysgrif Ymgorffori.

6. Rhowch eich manylion banc

Mae'n rhaid i hwn fod yn gyfrif banc yn y DU, ac yn enw'r busnes rydych yn ei gofrestru. Bydd unrhyw ad-daliadau gennym yn cael eu talu i'r cyfrif hwn.

Sylwer – ni all rhai cyfrifon wneud na derbyn taliadau fel hyn, felly trafodwch â'ch banc neu gymdeithas adeiladu os ydych yn ansicr.

7. A ydych yn defnyddio cyfrifiadur at ddiben cyfrifyddu?

Ticiwch 'Ydw' os ydych yn cadw'ch cofnodion ar gyfrifiadur a sicrhewch eich bod yn amgáu llythyr gyda'ch cais gorffenedig, gan roi manylion y feddalwedd a fersiwn y pecyn rydych yn ei ddefnyddio. Os oes rhywun arall yn berchen ar y cyfrifiadur (er enghraifft swyddfa gyfrifiaduron), rhowch y manylion hynny gyda'ch cais.

8. A ydych wedi gwneud unrhyw gaffaeliadau eto?

Ticiwch 'Ydw' os ydych wedi dechrau caffael nwyddau i mewn i Ogledd Iwerddon gan gyflenwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn aelod-wladwriaethau'r UE a rhowch y dyddiad y gwnaethoch eich caffaeliad cyntaf (nid yw'r trefniadau hyn yn berthnasol i wasanaethau).

Ticiwch 'Nac ydw' os nad ydych wedi dechrau gwneud caffaeliadau hyd yn hyn a rhowch y dyddiad yr ydych yn disgwyl dechrau gwneud hynny. Bydd yn rhaid i chi hefyd anfon tystiolaeth ysgrifenedig atom i ddangos eich bod yn mynd i wneud caffaeliadau erbyn y dyddiad a roddwyd ym mlwch 12.

Mae'r gwledydd canlynol yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd:

Yr Almaen	Estonia	Gwlad Pwyl	Latfia	Sbaen
Awstria	Y Ffindir	Gweriniaeth Tsiec	Lithwania	Slofacia
Cyprus*	Ffrainc	Hwngari	Lwcsembwrg	Slofenia
Denmarc	Gwlad Belg	Yr Iseldiroedd	Malta	Sweden
Yr Eidal	Gwlad Groeg	Iwerddon	Portiwgal	

*Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi gwybod, fel y mae'r sefyllfa ar hyn o bryd, y bydd cymhwysor'r 6ed Gyfarwydddeb yn cael ei atal yn yr ardaloedd hynny o Gyprus lle nad yw Llywodraeth Gweriniaeth Cyprus yn arfer rheolaeth effeithiol. Bydd trafodion â'r ardaloedd hynny ers 1 Mai 2004 yn parhau i gael eu trin fel trafodiadau nad ydynt yn ymwneud â'r UE.

9. A yw gwerth eich caffaeliadau wedi mynd dros y trothwy cofrestru ar unrhyw adeg yn y flwyddyn galendr?

Ticiwch 'Ydy' os ydych eisoes wedi mynd dros y trothwy caffael a rhowch y dyddiad yr aethoch dros y trothwy. Yn y blwch canlynol, rhowch werth eich caffaeliadau ers 1 Ionawr.

Ticiwch 'Nac ydy' os nad ydych wedi mynd dros y trothwy a rhowch werth eich caffaeliadau ers 1 Ionawr.

10. A ydych yn disgwyl y bydd y caffaeliadau y byddwch yn eu gwneud yn ystod y cyfnod 30 diwrnod nesaf yn unig yn fwy na'r trothwy cofrestru?

Ticiwch 'Ydw' os oes disgwyl i werth y caffaeliadau y byddwch yn eu gwneud yn ystod y cyfnod 30 diwrnod nesaf yn unig fynd dros y trothwy.

Ticiwch 'Nac ydw' os nad ydych yn debygol o fynd dros y trothwy ac ewch i gwestiwn 12.

11. O ba ddyddiad y mae'n rhaid i chi fod wedi cofrestru ar gyfer TAW?

Os ydych eisoes wedi mynd dros y trothwy yn ystod y flwyddyn galendr sy'n dechrau ar 1 Ionawr, mae'n rhaid i chi gofrestru ar gyfer TAW. Eich dyddiad cofrestru fydd diwrnod cyntaf yr ail fis ar ôl i chi fynd dros y trothwy.

Os ydych yn credu y bydd y caffaeliadau y byddwch yn eu gwneud yn ystod y cyfnod 30 diwrnod nesaf yn unig yn mynd dros y trothwy, mae'n rhaid i chi gofrestru ar gyfer TAW ar y dyddiad y credwch y byddwch yn mynd dros y trothwy.

Os ydych am gael eich cofrestru o ddyddiad cynharach, llenwch ail ran cwestiwn 11.

Pwysig: Os byddwch yn gwneud cais am ddyddiad cofrestru cynharach, a'n bod yn cytuno arno, hwn yw'r dyddiad y bydd eich cofrestriad yn dod i rym. Ni fyddwch yn gallu newid eich meddwl yn ddiweddarach, felly gwnewch yn siŵr, os byddwch yn gofyn am ddyddiad cynharach ym mlwch 11, mai hwn yw'r dyddiad yr ydych yn dymuno cael eich cofrestru ohono. Cofiwch y byddwch yn agored i roi cyfrif am unrhyw dreth o'r dyddiad hwn.

12. Nid oes angen i mi fod wedi cofrestru, ond hoffwn gael fy nghofrestru

Gallwch wneud cais i gofrestru os ydych eisoes yn gwneud caffaeliadau o dan y trothwy cofrestru, neu os nad ydych yn gwneud caffaeliadau hyd yn hyn ond eich bod yn mynd i wneud hynny yn y dyfodol. Rhowch y dyddiad yr ydych am gael eich cofrestru ohono.

Pwysig: Mae'r dyddiad yr ydych yn ei roi ym Mlwyth 12, unwaith y cytunir arno gennym ni, yn cyfateb i'r dyddiad y bydd eich cofrestriad yn dod i rym. Mae'n rhaid i chi roi cyfrif am dreth allbwn ar eich holl gaffaeliadau o'r dyddiad hwnnw. Unwaith y cytunir ar ddyddiad, ni allwch newid eich meddwl a gofyn i ni newid eich cofrestriad gwirfoddol i ddyddiad gwahanol. Gwnewch yn siŵr, felly, fod y dyddiad a roddwch ym Mlwyth 12 yn cyfateb i'r dyddiad yr ydych yn dymuno cael eich cofrestru ohono.

13. A ydych yn gwneud cyflenwadau trethadwy yn y DU?

Os ydych yn gwneud cyflenwadau trethadwy yn y DU, yn ogystal â chaffael nwyddau i mewn i Ogledd Iwerddon o wledydd yr UE, mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen VAT1 ac nid y ffurflen hon.

Ticiwch 'Nac ydw' os nad ydych yn gwneud cyflenwadau trethadwy yn y DU.

14. A ydych am gael eich eithrio rhag cofrestru oherwydd bod eich holl gaffaeliadau ar y gyfradd sero?

Gallwch wneud cais i gael eich eithrio rhag cofrestru os byddai'r holl nwyddau yr ydych yn eu caffael ar gyfradd sero pe baent wedi bod yn gyflenwadau trethadwy a wnaed gan berson trethadwy yn y DU.

Ticiwch 'Ydw' os ydych am wneud cais i gael eich eithrio rhag cofrestru ar gyfer TAW. Hefyd, rhowch werth y caffaeliadau cyfradd sero yr ydych yn disgwyl eu gwneud yn ystod y 12 mis nesaf.

Ticiwch 'Nac ydw' os nad ydych am gael eich eithrio rhag cofrestru ar gyfer TAW.

15. Datganiad

Dim ond y person a nodir isod ddylai lofnodi'r datganiad a thicio'r blwch priodol:

Ar gyfer unig berchnogion	Yr unig berchennog, er enghraifft, y perchennog
Ar gyfer partneriaethau	Un o'r partneriaid. Cofiwch – dylid rhoi llofnod yr holl bartneriaid hefyd ar ffurflen VAT2, y dylid ei llenwi a'i hanfon ynghyd â'r cais. Os yw partner yn gorff corfforaethol, yna mae angen enw a llofnod 'person naturiol' arnom sydd â rheolaeth effeithiol.
Ar gyfer cyrff corfforaethol	Cyfarwyddwr neu ysgrifennydd cwmni. Partner ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig. Os yw'r cyfarwyddwr, ysgrifennydd y cwmni neu'r partner ei hun yn gorff corfforaethol, yna mae angen enw a llofnod 'person naturiol' arnom sydd â rheolaeth effeithiol.
Ar gyfer cyrff anghorfforedig	Swyddog awdurdodedig, er enghraifft: <ul style="list-style-type: none">• ar gyfer clybiau aelodau: ysgrifennydd neu gadeirydd• ar gyfer ymddiriedolaethau: ymddiriedolwr neu fuddiolwr• ar gyfer cymdeithasau proffesiynol: llywydd neu ysgrifennydd ac ati.

Anfonwch y ffurflen gais wedi'i llenwi i:

Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM

HMRC

BX9 1ST

Ffôn 0300 200 3705

Mae rhagor o wybodaeth am ein gweithdrefn gwyno i'w chael yn www.gov.uk/cwyno-am-cthem